**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-VG 2796-18

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Medi 2018

Annwyl Dai,

Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi gwybod i chi am y ‘Rhaglen Diogelwch Cleifion a Gwella Ansawdd ar gyfer Cartrefi Gofal’ a fydd yn weithredol o 1 Hydref 2018 ymlaen.

Mae'r rhaglen genedlaethol gwella ansawdd hon yn cael ei llunio gan wasanaeth gwella 1000 o fywydau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ei nod yw datblygu a gwella gwasanaethau gofal cefnogol yn y cartref a dysgu wrth arferion da i wella ansawdd cyffredinol y gofal ar gyfer pobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghymru dros gyfnod o dair blynedd.

Mae deall cyd-destun a natur y system cartrefi gofal yn hollbwysig er mwyn gwella ansawdd a newid ymddygiad ar lefel mwy eang. Bydd y rhaglen yn datblygu trefn ar gyfer dysgu drwy wahanol ddulliau ymhlith cyfranogwyr a sefydliadau, drwy ddulliau dysgu organig a rhwydweithiau cymheiriaid. Bydd ansawdd a chyrhaeddiad y gwaith ymgysylltu yn ddigonol fel bod sefydliadau’n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod rhywun yn gwrando arnynt, gan gynnwys staff ar y rheng flaen, preswylwyr a theuluoedd, i ddeall cyfraniad ei gilydd i sicrhau'r canlyniadau.

Bydd y rhaglen hon yn ategu ac yn ychwanegu at fentrau cartrefi gofal presennol, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Dementia a helpu gyda'r gwaith o weithredu nifer o argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i'r defnydd o feddyginiaeth gwrthseicotig mewn cartrefi gofal.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.